

# *Pam rydyn ni'n aros? Oedi mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru*



---

**Awst 2022**

---



---

# Cynnwys

---

|                                      |           |
|--------------------------------------|-----------|
| <b>Crynodeb gweithredol</b>          | <b>3</b>  |
| <b>1. Cyflwyniad</b>                 | <b>5</b>  |
| <b>2. Pwrpas yr ymchwil</b>          | <b>6</b>  |
| <b>3. Dull</b>                       | <b>9</b>  |
| <b>4. Canfyddiadau</b>               | <b>10</b> |
| • Materion yn ymwneud â chasglu data | 10        |
| • Aros am ofal                       | 11        |
| • Mynd i'r afael â'r materion        | 14        |
| • Cefnogaeth wrth aros am ofal       | 18        |
| • Cefnogaeth wrth y trydydd sector   | 20        |
| <b>Canlyniadau</b>                   | <b>22</b> |
| <b>Argymhellion</b>                  | <b>24</b> |
| <b>Cyfeirnodau</b>                   | <b>27</b> |

## Tablau

Tabl 1: Y cyfnod o amser rhwng y cais am asesiad gofal a'r asesiad yn cael ei gwblhau 2019/2020 a 2020/2021

11

Tabl 2: Canran yr asesiadau a gwblhawyd yn dilyn atgyfeiriadau

12

Tabl 3: Y cyfnod o amser rhwng yr asesiad a'r gofal yn cychwyn yn 2019/20 20 ac yn 2020/2021

13

## Cydnabyddiaethau

Mae Age Cymru am ddiolch i'r holl awdurdodau lleol ledled Cymru, yr arweinwyr gofal cymdeithasol, Gofal a Thrwsio Cymru, a'r bobl hŷn a gofalwyr hŷn ledled Cymru a wnaeth helpu i lunio'r gwaith hwn.

---

# Crynodeb gweithredol

---

## Ynglŷn â'r ymchwil

Gwnaeth prosiect eiriolaeth dementia Age Cymru, prosiect eiriolaeth HOPE (Helpu eraill i gymryd rhan ac ymgysylltu) a Chyngor Age Cymru nodi pryderon fod yna oedi wrth i bobl hŷn gael eu hasesu gan ofal cymdeithasol ar gyfer eu hanghenion, yn ogystal ag oedi wrth ddod o hyd i becynnau gofal ar ôl cwblhau asesiad. Mae'r oedi hwn yn cael effaith andwyol sylweddol ar yr unigolion hynny sy'n aros, eu gofalwyr, eu teulu a'u rhwydwaith cymorth ehangach.

Drwy ein hymchwil roeddem am ddeall:

- Maint y broblem o aros am ofal i bobl hyn ledled Cymru
- Cynlluniau'r awdurdodau lleol ar gyfer adfer y gwasanaeth gofal
- Y cymorth sydd ar gael i bobl hŷn sy'n aros am ofal ar hyn o bryd
- Beth allai Age Cymru a'r trydydd sector ei wneud i gefnogi awdurdodau lleol i wella?

Er mwyn casglu'r wybodaeth angenrheidiol, cyflwynwyd cais Rhyddid Gwybodaeth i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru a gofynnwyd am gyfarfod ag arweinwyr gofal cymdeithasol.

## Casgliadau

- 1) Mae ymdrechion ledled Cymru i wella o'r pandemig a gwella gofal cymdeithasol i bobl hŷn, a chefnogi gofalwyr.
- 2) Mae angen gwella'r cyfathrebu â phobl hŷn sydd yn aros.
- 3) Nid yw'r ffordd mae data yn cael ei gasglu mewn llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn effeithiol ar gyfer monitro ac adrodd am y sawl sydd yn aros am asesiad gofal neu yn aros i becyn gofal gael ei weithredu.
- 4) Mae nifer y bobl sy'n aros am ofal a chymorth ar hyn o bryd a'r effeithiau andwyol y mae hyn yn eu cael arnynt hwy, eu gofalwyr, eu teulu ehangach a'u cymuned yn golygu bod angen cymorth ar unwaith i'r unigolion hynny, yn ogystal â newid hirdymor yn y system, ar frys.
- 5) Mae angen canolbwyntio mwy o adnoddau i gefnogi pobl i fod yn gyffyrddus wrth aros o fewn gofal cymdeithasol

# Argymhellion

## Argymhelliad 1

Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r un system rheoli achosion a sicrhau bod y data a gesglir yn gyson ledled Cymru. Bydd hyn hefyd yn helpu'r rhai sy'n symud siroedd i gael gwasanaeth mewn modd amserol. Efallai y bydd Data Cymru yn gallu cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu eglurder a chysondeb o ran cofnodi ar wahanol gamau o'r broses asesu gofal.

## Argymhelliad 2

Dylai awdurdodau lleol asesu eu gweithdrefnau presennol ar gyfer cyswllt cyntaf a chyfathrebu parhaus ar gyfer pobl sydd angen gofal a gwneud gwelliannau lle y nodir hynny. Dylai hyn gynnwys:

## Argymhelliad 3

Dylai awdurdodau lleol ddarparu adnoddau penodol ar gyfer mynd i'r afael â'r unigolion hynny sy'n gorfod aros mwy na 30 diwrnod ar hyn o bryd am asesu anghenion gofal neu weithredu pecyn gofal. Er bod nifer y bobl a nodwyd sy'n aros mwy na 30 diwrnod yn gymharol fach o ran nifer, mae'r effaith ar yr unigolion hynny'n aruthrol: gall aros gael effaith negyddol enfawr ar iechyd meddwl a chorfforol yr unigolyn sy'n aros yn ogystal ag ar ofalwyr, y teulu a'r rhwydwaith cymorth ehangach.

## Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ffocws cenedlaethol, gan archwilio pa gymorth sydd ei angen wrth i bobl aros a sut y darperir hyn, yn gyfartal â'r gwaith ar aros yn dda yn y sector gofal iechyd.

## Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru, byrddau partneriaeth ranbarthol, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod cyllid y trydydd sector yn cael ei ddarparu ar sail gynaliadwy. Darperir cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth y trydydd sector yn aml ar sail tymor byr, sy'n ei gwneud yn anodd datblygu gwasanaethau o ansawdd da yn gyflym, a chael y gwydnwch i allu addasu'n gyflym mewn cyfnod o argyfwng. Mae cyllid tymor byr yn aml yn golygu bod recriwtio'n parhau, gan fod staff yn gadael am well sicrwydd cyflogaeth.

## Argymhelliad 6

Mae angen rhoi pwyslais ar ddysgu rhwng awdurdodau lleol a rhannu arferion da. Bydd hyn yn lleihau maint y gwaith y mae angen i awdurdodau lleol ei wneud ac yn eu helpu i osgoi peryglon y mae awdurdodau lleol eraill wedi mynd i'r afael â hwy.

## Argymhelliad 7

Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod asesiadau o anghenion y boblogaeth yn cynnwys ffocws ychwanegol ar ragnodi cymdeithasol a'r hyn sydd ei angen i helpu pobl i gynnal eu lles. Dylai'r gwaith o gynllunio gwasanaethau o'r fath gynnwys ymgysylltu â phobl hŷn ar bob lefel. Dylid comisiynu gwasanaethau o'r fath ar sail gynaliadwy.

---

# 1. Cyflwyniad

---

Mae darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn heriol. Mae poblogaeth Cymru yn heneiddio ac mae nifer y bobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor cymhleth yn cynyddu. Mae'r pwysau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol yn rhoi systemau o dan bwysau.

Er bod y boblogaeth yn parhau i dyfu a heneiddio, mae'r ddarpariaeth o wasanaethau i oedolion yn y gymuned, darpariaeth cartrefi gofal a gofal seibiant wedi bod yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn.

Mae gofal cymdeithasol o ansawdd da sy'n cael ei ariannu'n briodol yn galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol am fwy o amser yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain, wrth alluogi gofaluwr i dderbyn cymorth a seibiant. Canfu adroddiad yn 2019, er bod gwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau cymdeithasol i oedolion dros y pum mlynedd diwethaf yng Nghymru wedi aros yn weddol wastad mewn termau real, bod gwariant y pen ar bobl hŷn wedi gostwng 13%.

Teimlir y pwysau ariannol hwn ledled Cymru. Gofynnir yn gynyddol i deulu a ffrindiau ddarparu gofal i'w hanwyliaid, ond mae terfyn ar yr hyn y gallant ei wneud. Gyda mwy o bobl hŷn yn byw ar eu pennau eu hunain heb fynediad at gymorth anffurfiol, mae darpariaeth gofal awdurdodau lleol yn dod yn fwyfwy pwysig.

## Disgwyliar erbyn 2035:

- Bydd y rhai sydd dros 65 oed nad ydynt yn gallu rheoli o leiaf un gweithgaredd hunanofal yn codi 46% - o bosib bydd tua 120,000 o bobl ychwanegol angen gofal a chymorth.
- Bydd pobl hŷn â salwch hirdymor yn codi 38%.
- Bydd pobl hŷn sy'n byw gyda dementia yn cynyddu 64%.<sup>i</sup>

Mae hyn i bob pwrpas yn golygu y bydd angen gofal a chymorth ar fwy o bobl gyda chydafiachedd, a chynnydd sylweddol yn nifer y bobl y bydd angen cyngor ar sut i reoli cyflyrau hirdymor. Mae gofal o ansawdd uchel yn dibynnu'n ddifrifol ar weithlu sefydlog, iach, sy'n cael ei gefnogi'n dda ac sy'n llawn cymhelliant.

Mae'r cyllid ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i fuddsoddi er mwyn adfer gofal cymdeithasol a symud tuag at ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei groesawu'n fawr gan Age Cymru. Fodd bynnag, gwyddom hefyd y bydd recriwtio a hyfforddi staff yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cymryd cryn dipyn o amser i'w gyflawni ac efallai nad cyflogau yw'r unig fater i fynd i'r afael ag ef.

---

# Pwrrpas yr ymchwil

---

Nododd prosiect eiriolaeth dementia Age Cymru, prosiect eiriolaeth HOPE (Helpu eraill i gymryd rhan ac ymgysylltu) a Chyngor Age Cymru bryderon ynglŷn ag oedi wrth i bobl hŷn gael eu hasesu gan ofal cymdeithasol ar gyfer eu hanghenion, yn ogystal ag oedi wrth ddod o hyd i becynnau gofal ar ôl cwblhau asesiad.

Gwyddom y gall peidio â chael y cymorth gofal cywir arwain at ganlyniadau difrifol a hirdymor i'r sawl sy'n aros am ofal, eu gofalwyr, eu teuluoedd a'r rhwydwaith cymorth ehangach.

Gall anghenion pobl hŷn newid wrth iddynt aros am asesiad, neu aros i becyn gofal gael ei weithredu. Mae hyn yn arbennig o wir am rai pobl hŷn fel y rhai sy'n byw gyda mwy nag un cyflwr iechyd, neu'r rhai sydd â gofalwyr di-dâl sydd wedi profi newid yn eu hamgylchiadau. I bobl sy'n byw gyda dementia, gall oedi wrth ddyrannu pecynnau gofal arwain at ddirywiad a datgyflyru cyflymach, yn enwedig i'r rhai sy'n byw ar eu pen eu hunain. Erbyn i wasanaeth fod ar gael, gall anghenion fod wedi newid, ac mae'r broses yn dechrau eto - gan achosi oedi pellach i bobl hŷn dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt. Yn ogystal, gall oedi wrth asesu a chefnogi, yn enwedig gyda gwybodaeth wael gan wasanaethau gofal cymdeithasol, wneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu hanghofio. Mae hyn yn cyfrannu at ddirywiad mewn lles meddyliol. Os nad yw pobl yn gwybod beth sy'n digwydd a phryd, gall hyn arwain at 'ohirio' bywyd.

## Astudiaeth achos

Cyfeiriwyd menyw sy'n byw gyda phroblemau cof at brosiect eiriolaeth dementia Age Cymru oherwydd pryderon na allai gynnal ei chartref a byw'n annibynnol. Mae hi'n byw gydag epilepsi ac yn ei chael hi'n anodd rheoli ei meddyginiaeth. Roedd hi hefyd yn colli ei sbectol a'i dannedd gosod yn rheolaidd ac ni allai gofio sut i ddatrys y pethau hyn. Roedd ei chartref yn mynd yn anniben ac yn flêr. Cyfeiriodd y prosiect eiriolaeth dementia hi at y gwasanaethau cymdeithasol gyda'i chaniatâd, a threfnodd y gwasanaethau i oedolion gynnal asesiad dros y ffôn rai wythnosau'n ddiweddarach. Roedd yn rhaid i'r eiriolwr dementia hwyluso hynny gan nad yw'r fenyw yn berchen ar ffôn ac efallai na fyddai'n cofio am yr apwyntiad. Roedd hi o'r farn bod y broses asesu yn ddryslyd iawn ac na allai ateb cwestiynau'n llawn. Gofynnodd yr eiriolwr dementia am asesiad wyneb yn wyneb, ond ni wnaed hyn. Roedd yr eiriolwr dementia yn cefnogi'r fenyw i ymgysylltu â'r clinig cof, gofal deintyddol, optometreg, brechiadau ac apwyntiad dietegol. Daeth yn amlwg ei bod wedi colli cryn dipyn o bwysau cyn iddynt ddod i'w cefnogi.

Cymerodd y broses o bennu gweithiwr cymdeithasol bedwar mis a hanner, ac erbyn hynny penderfynwyd y byddai'n cael ei symud i lety gofal ychwanegol er mwyn iddi fod yn ddiogel. Yn anffodus, erbyn i'w hasesiad o gapasiti gael ei gynnal, roedd wedi dirywio'n sylweddol ac felly bu'n rhaid iddi symud i ofal preswyl gan y barnwyd nad oedd yn gallu deall na chytuno ar gytundeb tenantiaeth. Bu cyfnod o chwe mis rhwng iddi gael ei chyfeirio at brosiect eiriolaeth dementia Age Cymru a'r penderfyniad hwn, a phedwar mis a hanner tan i'r atgyfeiriad i bennu gweithiwr cymdeithasol.

Mae llawer o ofalwyr hŷn eisoes wedi bod dan straen anhygoel drwy gydol y pandemig, ac mae rhai wedi cyrraedd pwynt lle na allant ddarparu'r gofal sydd ei angen bellach heb becyn gofal priodol. Gall hyn olygu bod eu hanwyliaid yn gorfod symud i ofal preswyl hyd yn oed pan nad dyma'r lle gorau iddynt bryd hynny. Gall y straen o ofalu a diffyg cymorth digonol hefyd arwain at ddirywio iechyd y gofalwr, ac weithiau yn y pen draw bydd angen gofal arnynt eu hunain.

## **Astudiaeth achos**

'Rhys' yw'r prif ofalwr di-dâl i'w wraig sy'n byw gyda dementia. Cynhaliwyd asesiad gofal sawl blwyddyn yn ôl gan roi dwy alwad iddi bob dydd yn ystod yr wythnos, ond mae ei chyflwr wedi dirywio'n sylweddol yn ystod y pandemig. Mae iechyd 'Rhys' hefyd wedi dirywio ac mae ganddo broblemau symudedd erbyn hyn. Roedd 'Rhys' wedi ymlâdd pan gysylltodd â phrosiect eiriolaeth dementia Age Cymru gan na all ofalu am ei wraig mwyach mewn ffordd ddiogel ac iach. Nid oedd yr hen becyn gofal yn ddigon i roi cymorth sydd ei angen arno i ofalu amdani er mwyn parhau i fyw gyda rhywfaint o annibyniaeth. Cysylltwyd â'r gwasanaethau cymdeithasol am ofal ychwanegol, ond dywedasant na allent gynyddu pecyn gofal ei wraig. Roedd prosiect eiriolaeth dementia Age Cymru yn gallu trefnu gofal seibiant fel ateb tymor byr, ond nid oedd hyn yn ddigon i helpu i oresgyn pwysau hirdymor y cyfrifoldebau gofalu. Roedd 'Rhys' yn profi lefelau uchel iawn o straen yn ceisio gofalu am ei wraig, ac ni allai ymdopi. O ganlyniad i hyn, bydd ei wraig yn cael ei symud i gartref gofal, dim ond oherwydd nad oes cymorth gofal cartref ychwanegol ar gael.

# Profiadau presennol pobl 50 oed a throsodd yng Nghymru yn ystod pandemig Covid-19

Yn ein harolwg diweddaraf gyda 1200 o bobl hŷn ledled Cymru, dywedodd llawer mwy o bobl wrthym am eu profiadau o dderbyn gofal cymdeithasol nag mewn arolygon blaenorol.

Dyweddodd pobl wrthym am gyfnodau hir o aros am asesiad gofal gydag un person yn rhoi gwybod i ni eu bod wedi cael trafferth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gyda'u hasesiad. Roedd yr asesiad wedi mynd ar goll felly roedd angen dechrau'r cyfan o'r dechrau. Dywedodd person hŷn arall wrthym eu bod wedi aros mwy na blwyddyn am asesiad therapi galwedigaethol cymunedol. Dywedodd eraill wrthym am yr amseroedd aros hir am gymorth gartref ar ôl derbyn asesiad.

*'Anodd cael asesiadau, llawer o rwystrau'*

*'Dydw i ddim yn trafferthu gofyn am gefnogaeth mwyach gyda chymorth i'r person rwy'n gofalu amdano oherwydd bod y gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud i mi grio pryd bynnag rydw i'n gofyn am help. Os bydda i'n marw bydd fy chwaer yn marw hefyd am nad oes neb yno i'n cefnogi ni.'*

*'Cymorth Canolfan Ddydd - dim ond ar gael i'r rhai ag anghenion mwy dwys a chymhleth'*

*'Mae'n rhaid i'm gŵr edrych ar fy ôl i a'm merch. Rydyn ni'n anabl, does dim help o gwbl does neb â diddordeb'*

Ble'r oedd gan bobl brofiad cadarnhaol o ofal cymdeithasol, roedd yn amlwg bod y profiad wedi bod yn dda mewn sefyllfaoedd anodd dim ond oherwydd bod holl anghenion y rhai a oedd yn derbyn gofal yn cael eu hystyried yn gyfan gwbl.

---

# Dull

---

Drwy ein hymchwil roeddem am ddeall:

- Maint y broblem o aros am ofal i bobl hŷn ledled Cymru.
- Bwriad yr awdurdod lleol ar gyfer adfer y gwasanaeth gofal.
- Y cymorth sydd ar gael i bobl hŷn sy'n aros am ofal ar hyn o bryd.
- Beth allai Age Cymru a'r trydydd sector ei wneud i gefnogi awdurdodau lleol i wella?

Er mwyn casglu'r wybodaeth angenrheidiol, cyflwynwyd cais Rhyddid Gwybodaeth i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn gofyn am y wybodaeth ganlynol ar gyfer 2019/2020 a 2020/2021:

- Ar gyfer pob unigolyn sy'n oedolyn 55 oed neu'n hŷn a wnaeth gais cychwynnol am asesiad gofal am y tro cyntaf, am ba hyd y gwnaeth pob unigolyn aros o'r cais cychwynnol a wnaed tan fod asesiad yn cael ei gynnal.
- O'r unigolion hynny yr aseswyd bod angen pecyn gofal a chymorth arnynt, faint o amser wnaeth basio rhwng i'r asesiad gael ei gynnal tan fod pecyn gofal penodedig yn cael ei roi ar waith ar gyfer yr unigolyn hwnnw.

Gofynnwyd hefyd am gyfarfod â'r holl arweinwyr gofal cymdeithasol.

Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar faterion cyfredol gyda gofal cymdeithasol, rydym yn cydnabod yr heriau cronol sy'n wynebu awdurdodau lleol o ran darparu adnoddau ar gyfer rhoi cymorth i ddiwallu anghenion cynyddol a newidiol y boblogaeth cyn y pandemig, y pwysau ychwanegol sydd wedi codi yn ystod y pandemig, a'r cynnydd diweddar yn y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol wrth i ni symud allan o'r pandemig. Drwy'r gwaith hwn rydym wedi ystyried y datblygiadau arloesol sydd wedi'u cyflawni o fewn y gwasanaeth y gellid adeiladu arnynt.

# Canfyddiadau

Daw'r data yn yr adran hon o ymatebion Rhyddid Gwybodaeth yr awdurdod lleol a chyfarfodydd gyda phum arweinydd gofal cymdeithasol awdurdodau lleol. Yn y wybodaeth, gwnaethom hefyd gynnwys ymchwil gan awdurdod lleol ychwanegol gyda'u caniatâd am y newidiadau sydd wedi eu cyflawni wrth wneud asesiadau a ddeilliwyd o sgwrs a gynhaliwyd ychydig cyn i'r ymchwil ddigwydd.

## Materion yn ymwneud â phrosesau casglu data

Dim ond 10 o'r 22 awdurdod lleol a oedd yn gallu rhoi gwybodaeth i ni dros y cyfnod o ddwy flynedd am ba mor hir yr oedd pob person 55 oed neu drosodd yn aros rhwng pryd wnaethant ofyn am asesiad o'i anghenion tan fod yr asesiad yn cael ei gwblhau. O'r rhai a oedd yn gallu darparu'r wybodaeth hon, dim ond chwe awdurdod lleol a oedd hefyd yn gallu darparu data ar ba mor hir yw'r cyfnod rhwng cwblhau'r asesiad hwnnw a phryd mae'r gofal ar waith.

Roeddem wedi disgwyl y byddai systemau data gofal cymdeithasol yn ein galluogi i ddilyn llwybr gofal unigolyn o'r cais cychwynnol tan fod gofal wedi'i sefydlu. Fodd bynnag, amlygodd trafodaethau gydag awdurdodau lleol drwy gydol y cyfnod casglu data wahaniaethau yn systemau rheoli gofal gwahanol awdurdodau lleol, pa ddata sy'n cael ei gasglu fel mater o drefn, newid o un system rheoli achosion i un arall, methodoleg casglu data a ffyrdd eraill o weithio. Dywedodd un awdurdod lleol wrthym nad ydynt yn casglu'r wybodaeth hon.

Rhoddwyd nifer o resymau pam na ellid darparu'r wybodaeth. Roedd y rhain yn cynnwys:

*'Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-2020, nid oeddem yn gallu cysylltu ein cyfeiriadau electronig ag unrhyw asesiadau a allai fod wedi'u dilyn neu beidio, felly ni allem ddarparu'r wybodaeth hon'*

*'Nid oes gennym ddata [h.y. pecyn asesu i ofal] ar gael ar hyn o bryd, er i'r mesur ddod i rym yn 2020-21, gohiriwyd y casgliad data o ganlyniad i'r pandemig. Nid ydym yn bwriadu ôl-ddyddio i 2019-20 na 2020-21'*

Gwnaeth un awdurdod lleol wnaeth ddweud nad oeddent yn gallu darparu data gyfarfod gyda ni i egluro bod eu system rheoli achosion wedi newid, a chan fod y penderfyniad wedi'i wneud beth amser yn ôl i newid ei system rheoli achosion, nid oedd eu system flaenorol wedi'i diweddarau gyda gofynion mwy newydd. Roedd hyn yn golygu ar gyfer y cyfnod hwnnw, roedd yn rhaid archwilio llawer mwy o wybodaeth â llaw at ddibenion adrodd.

Dywedodd un tîm Rhyddid Gwybodaeth wrthym:

*'Mae'r asesiad yn dechrau pan wneir y cyswllt cychwynnol [...], felly [...] nid oes amser aros rhwng y cais cychwynnol a'r asesiad sy'n digwydd'*

Mae'n destun pryder nad yw awdurdodau lleol yn gallu tynnu'r wybodaeth hon allan o'u systemau rheoli achosion yn rhwydd gan fod hyn yn peri cwestiynau megis sut y gall awdurdodau lleol gynnal gwiriadau sicrhau ansawdd a chynllunio ar gyfer adfer o'r pandemig Covid-19 os na all eu systemau ddilyn llwybr gofal ar gyfer pob unigolyn sydd angen gofal a chymorth.

## Aros am ofal

*'Rwyf ar restr aros er mwyn i Therapydd Galwedigaethol ddod i'm hasesu am grant anabledd er mwyn i mi wella ein tŷ i'w gwneud yn haws i mi ei ddefnyddio. Dydw i ddim yn siŵr a yw'r oedi yn hirach oherwydd Covid-19, ond mae'n mynd i gymryd tua blwyddyn cyn i mi dderbyn fy asesiad.'*

Amlygodd y data a gasglwyd rywfaint o oedi sylweddol cyn i bobl hŷn gael eu hasesu am eu hanghenion gofal, ac oedi cyn bod pecyn gofal ar waith ar ôl i'w hanghenion gael eu hasesu.

**Tabl 1 - Y cyfnod o amser rhwng y cais am asesiad gofal a'r asesiad yn cael ei gwblhau 2019/2020 a 2020/2021**

| Cyfnod o amser  | Cyfanswm y ceisiadau 19/20 | % 19/20     | Cyfanswm y ceisiadau 20/21 | % 20/21     |
|-----------------|----------------------------|-------------|----------------------------|-------------|
| 0-30 dydd       | 13073                      | 86.28%      | 12097                      | 91.09%      |
| 31-60 dydd      | 954                        | 6.30%       | 643                        | 4.84%       |
| 61-90 dydd      | 509                        | 3.36%       | 264                        | 1.99%       |
| 91-120 dydd     | 275                        | 1.82%       | 128                        | 0.96%       |
| 121-150 dydd    | 148                        | 0.98%       | 76                         | 0.57%       |
| 151-180 dydd    | 64                         | 0.42%       | 33                         | 0.25%       |
| 181-210 dydd    | 33                         | 0.22%       | 17                         | 0.13%       |
| 211-240 dydd    | 25                         | 0.17%       | 17                         | 0.13%       |
| 241-270 dydd    | 11                         | 0.07%       | 3                          | 0.02%       |
| 271-300 dydd    | 15                         | 0.10%       | 2                          | 0.02%       |
| 301-330 dydd    | 15                         | 0.10%       | 0                          | 0%          |
| 331-360 dydd    | 11                         | 0.07%       | 1                          | 0.01%       |
| 361-390 dydd    | 3                          | 0.02%       | 0                          | 0%          |
| 391+ dydd       | 15                         | 0.10%       | 0                          | 0%          |
| <b>CYFANSWM</b> | <b>15151</b>               | <b>100%</b> | <b>13281</b>               | <b>100%</b> |

Yn ystod 2019/2020 digwyddodd 86.28% o asesiadau o fewn 30 diwrnod i'r cais am asesiad gael ei wneud. Cynyddodd y ffigwr i 91.09% yn ystod 2020/2021. Gall y cynnydd hwn adlewyrchu newid i rai asesiadau sy'n cael eu cynnal dros y ffôn neu drwy alwadau fideo oherwydd cyfyngiadau Covid-19, yn ogystal â gostyngiad yn nifer y bobl sy'n troi at ofal cymdeithasol yn ystod y pandemig.

Cyn y pandemig roedd rhai pobl yn aros yn hir am asesiad o'u hanghenion. Roedd 15 o bobl yn aros mwy na 361 diwrnod am asesiad yn 2019/2020. Gostyngodd amseroedd aros yn ystod 2020/2021, gyda dim ond un person yn aros mwy na 330 diwrnod am asesiad. Er bod llai o bobl yn aros yn hir am asesiad o'u hanghenion, ym mhob achos mae hwn yn berson sydd â hawl gyfreithiol i dderbyn asesiad mewn modd amserol gydag anghenion nad oeddent yn cael eu diwallu.

## Gostyngiad yn nifer y ceisiadau am asesiad

Yn gyffredinol, gostyngodd nifer y ceisiadau am asesiad 12.34% rhwng 2019/2020 ac 2020/2021. Mae'r rhesymau am hyn yn debygol o gael eu hamrywio gan gynnwys newidiadau mewn gweithdrefnau mewnol a allai fod wedi newid categorïau asesiadau; mwy o angen am gymorth oherwydd dirywiad mewn iechyd corfforol a meddyliol yn ystod y pandemig; a mwy o angen am gymorth i ofalwyr di-dâl sydd wedi derbyn llai o gymorth, neu ddim cymorth o gwbl yn ystod y pandemig.

**Tabl 2: Canran yr asesiadau a gwblhawyd o atgyfeiriadau**

| Atgyfeiriadau<br>2019/2020 | Asesiadau<br>2019/2020 | Cyfradd trosi | Atgyfeiriadau<br>2020/2021 | Atgyfeiriadau<br>2020/2021 | Cyfradd trosi |
|----------------------------|------------------------|---------------|----------------------------|----------------------------|---------------|
| 4212                       | 1200                   | 28.5%         | 5926                       | 942                        | 15.9%         |

(n= 6)

Dim ond 28.5% o geisiadau am asesiad yn 2019/2020 a newidiwyd i gynllun gofal a 15.9% o asesiadau ar gyfer 2020/2021.

**Tabl 3: Y cyfnod o amser rhwng yr asesiad a'r gofal yn cychwyn yn 2019/20 20 ac yn 2020/2021**

| Amser           | Nifer yr asesiadau a gwblhawyd 2019/2020 | %      | Nifer yr asesiadau a gwblhawyd 2020/2021 | %      |
|-----------------|------------------------------------------|--------|------------------------------------------|--------|
| 0-30 dydd       | 845                                      | 70.42% | 647                                      | 68.68% |
| 31-60 dydd      | 107                                      | 8.92%  | 160                                      | 16.99% |
| 61-90 dydd      | 59                                       | 4.92%  | 49                                       | 5.20%  |
| 91-120 dydd     | 37                                       | 3.08%  | 31                                       | 3.29%  |
| 121-150 dydd    | 27                                       | 2.25%  | 20                                       | 2.12%  |
| 151-180 dydd    | 31                                       | 2.58%  | 13                                       | 1.38%  |
| 181-210 dydd    | 16                                       | 1.33%  | 6                                        | 0.64%  |
| 211-240 dydd    | 14                                       | 1.17%  | 6                                        | 0.64%  |
| 241-270 dydd    | 6                                        | 0.50%  | 2                                        | 0.21%  |
| 271-300 dydd    | 10                                       | 0.83%  | 2                                        | 0.21%  |
| 301-330 dydd    | 6                                        | 0.50%  | 2                                        | 0.21%  |
| 331-360 dydd    | 7                                        | 0.58%  | 3                                        | 0.32%  |
| 361-390 dydd    | 6                                        | 0.50%  | 0                                        | 0%     |
| 391+ dydd       | 29                                       | 02.42% | 1                                        | 0.11%  |
| <b>CYFANSWM</b> | 1200                                     | 100%   | 942                                      | 100%   |

(n- 6)

Roedd ychydig dros 70% wedi derbyn eu gofal i gyd neu ran o'u gofal o fewn 30 diwrnod o'u hasesiad yn 2019/20 ac roedd ychydig o dan 69% wedi ei dderbyn ar gyfer 2020/21. Roedd hyn yn dal i adael 295 o bobl yn aros am fwy na 30 diwrnod am y gofal a'r cymorth yr aseswyd bod angen eu rhoi ar waith, a 135 yn aros mwy na dau fis. Gan fod y data'n ddienw, nid oedd yn bosibl gweld a oedd y bobl a oedd wedi bod yn aros yn hir am asesiad yn gorfod aros yn hir am eu pecyn gofal, ond mae hynny'n bosibilrwydd.

Pan ofynnwyd i awdurdodau lleol pam y gallai fod oedi hir cyn derbyn gofal, roedd eu hymatebion yn cynnwys:

- Prinder staff.
- Gall casglu'r holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth gymryd mwy o amser na llawer o bobl eraill sydd â llai o anghenion gofal.
- Dewis personol o'r gofal y mae pobl ei eisiau, mae'n bosib bod angen cryn dipyn o amser i ddod o hyd i gymorth ar gyfer eu hanghenion.
- Gall amser ymddangos yn hirach mewn achosion lle mae'r person wedi cael cyfnod o ail-alluogi cyn iddo gael ei ailasesu ar gyfer ei anghenion.
- Tagfeydd mewn ail-alluogi.
- Rhai teuluoedd yn dewis aros am ofal oherwydd Covid-19, gan nad oeddent am i'w hanwyliaid ddal y feirws gan bobl y tu allan i'w grŵp.
- Pobl nad ydynt yn barod i'w rhyddhau o'r ysbyty.

- Cleientiaid 'ddim yn ymgysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol'.
- Cleientiaid sy'n adleoli i ardal yr awdurdod lleol hwnnw.

Mae llawer ohonynt yn faterion a oedd yn bodoli cyn y pandemig ac maent wedi gwaethygu yn ystod yr argyfwng. Mae rhai yn ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig a disgwylir iddynt ddiflannu wrth i effeithiau'r pandemig wella.

Wrth drafod casglu data gydag awdurdodau lleol, gofynnodd rhai am eglurhad ynghylch pun'ai oeddem eisiau data holl elfennau'r cynlluniau gofal neu ran ohono'n unig, gan na fyddai eu systemau'n gallu casglu'r holl wybodaeth heb wiriadau â llaw. Mae'r wybodaeth a gynhwysir uchod yn cynnwys achosion lle mai dim ond rhan gyntaf pecyn gofal sydd ar waith yn ogystal ag achosion lle'r oedd yr holl ofal wedi'i sefydlu, yn dibynnu a allai cofnodion awdurdodau lleol dynnu'r data hyn allan ai peidio. Oherwydd hynny, mae'r data'n rhoi darlun mwy cadarnhaol o ofal.

Er enghraifft, os oedd cymhorthion cartref fel cadeiriau cawod yn rhan o'r cynllun gofal, gellir darparu'r rhain yn gymharol gyflym o'u cymharu â phecyn gofal cartref. Dywedodd rhai awdurdodau lleol wrthym eu bod yn blaenoriaethu darparu gofal i'r rheini y mae eu hanghenion mwyaf difrifol. Daw hyn ar draul pobl a allai gael trafferth ond sy'n ymddangos fel petaent yn ymdopi, a'u pryderon y gall eu hanghenion waethygu wrth iddynt aros.

Trafododd awdurdodau lleol y penderfyniadau anodd ynghylch a ddylid blaenoriaethu'r rhai a oedd yn ddigon iach yn feddygol i adael yr ysbyty a rhyddhau lle yno yn erbyn anghenion y rhai yn y gymuned sydd wedi bod yn aros am ofal yn hirach.

Dywedodd un awdurdod lleol wrthym fod eu hamseroedd aros galwedigaethol hiraf ar gyfer asesiadau ymdrochi. Roedd Age Cymru Advice wedi derbyn sawl galwad lle nad yw pobl yn gallu deall pam eu bod yn aros cyhyd i allu cael bath neu gawod. Maen nhw wedi dweud wrthym eu bod yn colli eu hurddas wrth gwmpo yn y gawod a gorfod galw pobl i'w helpu i godi.

## ***Mynd i'r afael â'r materion***

Helpodd ein sgysiau ag arweinwyr gofal cymdeithasol ni i ddeall pa fesurau oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud ag aros am ofal.

Mae'n amlwg yn sefyllfa hynod o anodd ar gyfer gofal cymdeithasol a sut mae hyn wedi effeithio ar bobl sydd angen gofal a chymorth. Dywedodd awdurdodau lleol wrthym sut yr oeddent yn newid gwasanaethau i ganolbwyntio ar y pethau sylfaenol yr oedd eu hangen ar bobl ar ddechrau'r pandemig, a newid i ffyrdd o weithio'n ddigidol, lle bo hynny'n bosibl. Mewn rhai meysydd gwaith, roedd newid i gyfarfodydd fideo yn rhyddhau amser staff i wneud mwy, ond mewn meysydd eraill cafodd eu hymdrechion eu cwtdogi'n ddifrifol gan effeithiau'r pandemig.

Dywedwyd wrthym am newidiadau i ffyrdd mewnol o weithio, am ddatblygu mwy o wasanaethau yn y gymuned a newidiadau eraill i gynyddu cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae rhai awdurdodau lleol yn ystyried ail-gydbwyso faint o ofal a ddarperir gan yr awdurdod lleol a faint sy'n cael ei gomisiynu gan wasanaethau'r sector preifat a chymunedol. Dywedwyd wrthym fod disgwyl i rai o'r materion a welwyd yn ystod y pandemig ddiflannu ar ôl i wasanaethau ddod ar gael.

## Recriwtio a chadw staff

Soniodd pob awdurdod lleol am faterion yn ymwneud â recriwtio a chadw staff, a dywedodd sawl un wrthym am eu pryderon eu bod wedi colli staff profiadol, bod rhai ohonynt wedi ymddeol yn gynnar, a sut y mae'n anodd adennill hynny drwy hyfforddi staff newydd. Gofynnwyd a fydd cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn ateb eu problemau recriwtio. Roedd y rhan fwyaf yn obeithiol y byddai'n helpu ac yn cynorthwyo gydag adferiad pandemig, ond dywedasant hefyd fod angen mwy. Soniodd sawl un am statws cyfartal â gwasanaethau'r GIG, ond nid oes ateb syml o ran sut y gellid cyflawni hyn. Soniodd rhai am gefnogaeth gan eu Bwrdd Iechyd Lleol gyda recriwtio gan gynnwys paru telerau ac amodau cyflogaeth â gwahanol raddau o lwyddiant.

Diffyg gweithwyr gofal yw un o'r prif faterion i'r awdurdodau. Mae gan bob ardal yng Nghymru heriau gwahanol megis daearyddiaeth, strwythur y boblogaeth a'r farchnad darparwyr. Mae awdurdodau ledled Cymru yn edrych ar nifer o atebion posibl yn unol â'u hanghenion penodol.

- Cynyddu nifer y gofal cartref a ddarperir gan yr awdurdod lleol dros ddarpariaeth a gomisiynir yn breifat.
- Canolfannau ardal yn gweithio a chomisiynu ar sail ardal leol (gyda mwy o staff gofal cerdded a gyrru dros y ffocws blaenorol ar ofalwyr sy'n gallu gyrru)
- Newid i waith shifft (i ffwrdd o gontractau unigol), sy'n cael ei ystyried yn bosiblwydd cyflogaeth fwy deniadol.
- Cynyddu lefel ymreolaeth gofalwyr i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (yn hytrach na thasgau sy'n seiliedig ar allbwn neu dasgau a arweinir gan amser).
- Cynllunio i ddarparu beiciau trydan i ofalwyr mewn ardaloedd lleol lle mae'n ymarferol.
- Recriwtio gofalwyr o'r tu allan i'r UE.
- Cynyddu cyflogau gofal cartref sy'n uwch na'r cyflog byw.
- Rhoi cymorth ariannol i ofalwyr ddysgu gyrru.
- Cefnogi datblygiad 'microfusnesau', yn bennaf i ddarparu gofal cartref mewn ardaloedd mwy gwledig. Datblygwyd rhai ohonynt yn ddiweddar ac mae awdurdodau lleol yn ystyried ble mae'r rhain yn fuddiol gyda'r bwriad o'u cyflwyno'n ehangach os ydynt yn llwyddiannus.
- Darparu beiciau trydan ar gyfer trafnidiaeth er mwyn osgoi'r angen i yrru (mewn ardaloedd lle mae'n ddiogel teithio ar feic).
- Mwy o ffocws ar ddarparu gofal gan yr awdurdod lleol ar gyfer pobl y maent yn ei chael yn anodd caffael gofal gan asiantaethau preifat.

## Newidiadau mewn ffyrdd o weithio

Mae awdurdodau lleol yn gwneud newidiadau i'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau fel ffordd o leihau gwastraffu amser ac mae llawer yn newid cyfluniad eu gwasanaethau i ddarparu gofal yn nes at eu cartrefi. Soniodd rhai am y ffordd y maent yn croesawu manteision technoleg mewn meysydd lle mae hyn wedi lleihau'r baich amser ar staff. Dywedodd awdurdodau lleol wrthym y byddai gweithio hybrid yn parhau i lawer o staff i gydnabod y manteision i staff y mae'r pandemig wedi effeithio'n andwyol ar eu lles emosiynol. Dywedodd un awdurdod lleol gwledig wrthym eu bod, drwy'r pandemig, wedi gallu cael mwy o gyfranogiad gan ymgynghorwyr mewn cyfarfodydd aml-ddisgyblaethol pan oeddent yn symud ar-lein ac nad oeddent yn gorfod teithio mwyach. Roeddent o'r farn bod hyn o fudd cynyddol, yn enwedig i ardaloedd gwledig ac felly byddant yn parhau i gyfarfod fel hyn yn y dyfodol.

Mae rhai awdurdodau lleol gwledig wedi newid o weithio mwy canolog i waith clwstwr i fod yn agosach at y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. I un awdurdod lleol, mae hyn yn cynnwys newid natur ganolog gwasanaethau dydd i ganolfannau cymunedol llai yn nes at ble mae pobl yn byw i leihau eu hamser teithio.

## **Datblygu gwasanaethau ehangach**

Dywedodd awdurdodau lleol wrthym am bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau'r trydydd sector i wella ymateb y gymuned a helpu i gael y cymorth cywir i bobl yn y lle cywir ar yr adeg gywir. Mae'r rhain yn cynnwys y cymorth hanfodol sydd ei angen fel rhan o gynllunio gofal i hyrwyddo lles yn dilyn effeithiau'r pandemig ac i gydnabod y rôl hanfodol y mae cymunedau a chanolfannau cymunedol yn ei chwarae wrth adfer o bandemig Covid-19, yn ogystal â gwasanaethau ymyrraeth gynharach a all atal rhag angen gofal cymdeithasol a gofal iechyd yn y dyfodol.

Dywedodd dau awdurdod lleol wrthym sut y maent yn annog datblygu 'microfusnesau' mewn lleoliadau mwy anghysbell a all ddarparu gofal cartref i ychydig o bobl yn yr ardal honno, yn enwedig ar gyfer ardaloedd lle mae darparwyr preifat yn llai parod i weithio.

## **Datblygiadau a newidiadau i dîm awdurdodau lleol**

Datblygodd un awdurdod lleol dîm codi a chario newydd yn gynnar yn 2022 gyda phedwar Therapydd Galwedigaethol a Nyrs Gymunedol i dynnu rhywfaint o'r straen oddi ar eu gwasanaethau gofal cartref a gwella ansawdd y gofal sydd ar gael. Dywedasant wrthym ei fod wedi rhyddhau therapyddion galwedigaethol i wneud pethau eraill a'u helpu i roi'r gwasanaeth sydd ei angen ar bobl y tro cyntaf ar yr adeg iawn. Trafodwyd ymdrechion o'r fath gan awdurdodau lleol eraill sy'n ceisio lleihau gwastraff drwy'r lefelau adnoddau presennol. Mae awdurdod lleol arall yn ceisio lleihau'r ddibyniaeth ar ofal cartref i bobl y gellid gwella eu sefyllfa drwy ganolbwyntio mwy ar ail-alluogi.

## **Addasiadau i'r cartref**

Buom yn siarad â Gofal a Thrwsio Cymru i ddeall sut yr effeithiwyd ar ddarparu addasiadau i gartrefi. Maen nhw wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl hŷn sydd wedi gweld ei iechyd yn dirywio ers i'r pandemig ddechrau sydd angen mwy o addasiadau na chyn y pandemig. Dywedwyd wrthym fod rhai ffyrdd o weithio wedi newid a bod amseroedd aros yn cynyddu o ganlyniad i fesurau cloi. Yn ystod y pandemig, mae rhai contractwyr adeiladu a ddefnyddir ar gyfer addasiadau wedi mynd allan o fusnes. Mae eraill wedi dod o hyd i waith mwy proffidiol drwy brosiectau cyfalaf yn Lloegr. O ganlyniad, gall hyn effeithio ar ba mor hir y mae'n ei gymryd i wneud yr addasiadau angenrheidiol i gartref pobl i helpu gyda byw'n annibynnol. Mae'r cynnydd yng nghostau rhai deunyddiau adeiladu wedi treblu'n ddiweddar ond mae Llywodraeth Cymru wedi deall pryderon Gofal a Thrwsio Cymru ac wedi darparu rhywfaint o arian ychwanegol i gefnogi gwaith addasu. Mae ôl-groniadau a oedd yn cynyddu yn ystod y pandemig bellach yn lleihau, er ei bod yn dal yn her i greu'r capasiti sydd ei angen i glirio'r rhestrau o'r rhai sy'n aros.

## Cymorth i ofalwyr di-dâl

*'Mae poeni am y ffrind oedrannus iawn rwy'n gofalu amdano wrth i bethau ddechrau 'agor' yn heriol. Er na fyddwn i eisio PEIDIO â gofalu amdani, rwy'n teimlo bod fy mywyd wedi'i ohirio'*

Roedd pob awdurdod lleol am wneud mwy i gefnogi gofalwyr di-dâl ac roeddent yn ymwybodol o'r pwysau sylweddol y mae gofalwyr wedi'u hwynebu, a byddant yn parhau i wynebu heb y cymorth cywir. Dywedodd rhai awdurdodau lleol wrthym fod angen iddynt wella'r broses o nodi gofalwyr a'u bod yn canolbwyntio ar newid hyn. Bydd darparu'r gofal cywir i bobl hŷn drwy ofal cartref, cymorth canolfan ddydd yn ei wahanol ffurfiau, a gofal seibiant a ddarperir drwy gartrefi gofal a lleoliadau eraill i gyd yn helpu i leihau'r pwysau ar ofalwyr.

Dywedodd awdurdodau lleol wrthym sut yr oeddent wedi dyrannu'r arian ychwanegol; cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gofalwyr. Dywedodd un awdurdod lleol wrthym ei fod wedi trosglwyddo cyllid yn syth i'r trydydd sector i ddatblygu cymorth i ofalwyr ac yn yr un modd i awdurdodau lleol a darparwyr gofal cartref, nid oeddent yn gallu recriwtio staff i ddarparu'r cymorth angenrheidiol.

Dywedodd un sir wrthym sut yr oeddent yn ceisio cymorth gan wirfoddolwyr ar ddechrau'r pandemig i helpu i gefnogi gofalwyr, ond daeth yn amlwg bod y sgiliau angenrheidiol yn fwy nag y dylid eu disgwyl gan wirfoddolwyr ac felly roedd angen ateb arall. Erbyn hyn mae ganddynt weithiwr cymdeithasol sy'n ymroddedig i ganolbwyntio ar sut y maent yn ymateb i anghenion gofalwyr. Bydd hyn yn gwella'r broses o nodi gofalwyr ac yn rhoi gwell cymorth iddynt yn y dyfodol. Maent wedi profi achosion yn ystod y pandemig gyda gofalwyr yn mynd i'r ysbyty neu le nad ydynt wedi gallu ymdopi am resymau eraill yr oedd angen ymyriadau argyfwng arnynt sydd wedi bod yn anodd eu datrys yn gyflym.

Dywedodd un awdurdod lleol wrthym sut y maent yn newid eu model o ddarpariaeth gofal dydd. Yn flaenorol, roedd eu darpariaeth canolfan ddydd yn fwy canolog ac yn defnyddio bysiau mini i gasglu pawb ledled y sir i'r gwasanaethau dydd canolog. Dangosodd y pandemig iddynt fod y sefyllfa'n fregus ac felly maent yn datblygu canolfannau llai a lleol i leihau teithio a chynyddu hygyrchedd. Dywedasant wrthym hefyd sut y mae eu darpariaeth gofal mewnol yn helpu i gefnogi gofalwyr pobl sy'n byw gyda dementia. Cyn y pandemig roedd ganddynt eisoes wasanaeth 'dementia actif' a ddechreuodd fel ymarfer ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. Yn ystod y pandemig bu'n rhaid i hyn symud ar-lein ac roedd angen mwy o gymorth ar ofalwyr. Gyda Chymdeithas Alzheimer's Cymru maent bellach yn darparu garddio a gweithgareddau awyr agored eraill. Maent wedi addasu dwy uned mewn cartrefi gofal i fod yn arbenigwyr ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr.

Dywedodd sir arall wrthym eu bod bellach yn darparu taliadau uniongyrchol i ofalwyr eu hunain; cyn y pandemig roedd taliadau uniongyrchol ynghlwm wrth y rhai y gofelir amdanynt.

# Cefnogaeth wrth aros am ofal

*'Does neb wedi gofyn i mi sut ydw i'*

Roedd yn amlwg o'r trafodaethau gydag arweinwyr gofal cymdeithasol eu bod yn pryderu'n fawr am yr amseroedd aros am ofal. Mae ymdrechion yn cael eu gwneud i gynyddu nifer y cymorth cymunedol a fydd yn gwella lles pobl hŷn yn y tymor hwy. Drwy gydol y pandemig, roedd pobl hŷn sy'n agored i niwed yn dibynnu'n drwm ar gymorth y trydydd sector. Ar ôl gweld manteision yr hyn y mae rhai wedi'i alw'n wasanaethau 'ar ymyl gofal', mae hwn yn faes y gellid ei ddatblygu ymhellach i gefnogi pobl sy'n aros am wasanaethau gofal cymdeithasol yn ogystal â darparu gwasanaethau ymyrraeth a'r cymorth sydd ei angen.

## Cyfathrebiad

O'n trafodaethau gydag arweinwyr gofal cymdeithasol, mae gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol o ran amllder ac ansawdd cyfathrebu â phobl hŷn sy'n aros am asesiad neu i ofal fod ar waith. Cawsom yr argraff yn dilyn y sgysiau hyn fod cymaint o ymdrech yn cael ei ffocysu ar glirio rhestrau aros nad oes llawer o amser ar ôl i feddwl am yr hyn arall y gellir ei wneud yn ymarferol yn y tymor byr i leihau lles pobl sy'n cael ei effeithio'n ychwanegol wrth iddynt aros. Dywedodd yr holl awdurdodau lleol y buom yn siarad â hwy eu bod yn ysgrifennu at bobl hŷn fel mater o drefn i roi gwybod iddynt eu bod ar restr aros.

Dywedodd eraill wrthym fod gweithwyr cymdeithasol hefyd yn cadw cysylltiad ffôn rheolaidd â'r rhai sy'n aros. Nid yw pawb sydd angen gofal a chymorth yn derbyn gweithiwr cymdeithasol yn gynnar yn y broses asesu a chynllunio gofal, felly gellid gadael llawer heb gyfathrebu parhaus gan ofal cymdeithasol am ba hyd y maent yn debygol o aros a beth y gallant ei wneud i helpu eu hunain yn y cyfamser.

Mae adborth gan bobl hŷn drwy wasanaethau Age Cymru yn dangos bod angen gwell ansawdd a chysondeb cyfathrebu.

## Astudiaeth Achos

Roedd angen rhywfaint o help ar fenyw i ymolchi yn dilyn newid yn ei hiechyd a oedd yn golygu ei bod mewn perygl o gwmpo. Roedd hi wedi bod drwy raglen adsefydlu ond roedd wedi cwblhau'r rhaglen hyn heb fawr o gynnydd o ran cynyddu ei chryfder. Roedd hi wedi cael rhai cymhorthion ac addasiadau gartref i geisio ei helpu i symud o gwmpas yn fwy diogel. Pan gysylltodd â'i hawdurdod lleol yn ddiweddarach i ddweud nad oedd yn ddiogel iddi gael cawod ar ei phen ei hun, dywedasant wrthi ble y gallai gael help pe bai'n talu amdano.

Galwodd Cyngor Age Cymru ychydig wythnosau ar ôl hyn gan nad oedd hi wedi clywed wrthynt o gwbl, ac felly roedd hi'n meddwl nad oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn mynd i'w helpu. Roedd hi wedi syrthio yn y gawod ers cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol ac wedi gorfod galw perthynas gwrywaidd i ddod i'w helpu o'r gawod. Dywedodd wrthym ei bod wedi cwmpo o'r blaen ac roedd arni ofn syrthio eto, "Rwy'n teimlo mor ofnus," meddai.

Fe'i cynghorwyd i holi'r gwasanaethau cymdeithasol. Cadarnhawyd ei bod yn y system yn aros am asesiad. Ni dderbyniwyd llythyr i gadarnhau hyn ac ni ddywedwyd wrthi am ba hyd y byddai'n aros.

Mae peidio â gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd a phryd yn golygu nad yw pobl hŷn a'u hanwyliaid yn gallu cynllunio pethau. I bob pwrpas, mae eu bywydau'n cael eu gohirio mewn sefyllfa lle maent yn teimlo nad oes ganddynt fawr o reolaeth dros y camau nesaf. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar les pobl. Nid yw'n glir pa fathau o gymorth, gwybodaeth a chynghor a all wneud y gwahaniaeth mwyaf i helpu pobl tra byddant yn aros am asesiad neu'n aros am ofal. Byddai angen gwneud mwy o waith i weld beth fyddai'n helpu pobl i gynnal eu lefelau lles wrth aros am gymorth.

## Gwasanaethau gwybodaeth a chynghor

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth a chynghor i bobl y gallai fod angen gofal a chymorth arnynt, ac mae'n hanfodol helpu pobl hŷn a'u hanwyliaid i ddeall eu sefyllfa, eu hawliau a'r hyn a allai fod ar gael iddynt. Nid yw'n ymddangos bod pobl sydd wedi cysylltu â'n gwasanaethau wedi cael cynghor ystyrlon a defnyddiol wrth iddynt aros. O'r galwadau a dderbyniwn, credwn fod sawl rheswm pam y gall hyn ddigwydd.

- Nid yw llawer o bobl yn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol i ofyn am gymorth nes bod eu hangen am gymorth yn ddifrifol ac mae hyn yn aml ar ôl cyfnod o geisio ymdopi. Ar adeg o'r fath, gall pobl fod yn llai abl i dderbyn gwybodaeth a chynghor y tro cyntaf y byddant yn cysylltu ag efallai y bydd angen iddynt glywed y wybodaeth hon eto, ond nid yw'r wybodaeth yn cael ei gynnig ddwywaith neu fwy fel mater o drefn.
- Gall dealltwriaeth a disgwyliadau pobl o ofal cymdeithasol fod yn wahanol i'r hyn sydd ar gael. Nid yw llawer o bobl yn ymwybodol o bolisiau codi tâl am wasanaethau gofal cymunedol sy'n destun profion modd. O ganlyniad, gall cynghor a roddir ar sut y gall pobl dalu am ofal yn y gymuned eu hunain gael ei gamddeall fel petai eu cais am gymorth yn cael ei wrthod. Mae terfyn ar ba wybodaeth a chynghor y gallent ei wneud mewn llawer o

amgylchiadau. Fodd bynnag, mae'n amlwg o rai o'n galwadau ac o ymatebion i'r arolwg fod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu hanghofio gan ddiffyg cyswllt parhaus ac mae angen ymdrechu i wella cyfathrebu a gweld pa gymorth arall y gellir ei ddarparu.

## **Cymorth gan y trydydd sector**

O'n trafodaethau gydag arweinwyr gofal cymdeithasol ledled Cymru, roedd yn amlwg bod mwy y gallai'r trydydd sector ei wneud i helpu gydag adferiad gofal cymdeithasol o bandemig Covid-19 pe bai'n cael yr adnoddau i helpu. Gwyddom fod gofal cymdeithasol, gofal iechyd a grwpiau cymunedol eraill ledled Cymru wedi dod yn agosach at ei gilydd i helpu pobl hŷn i gael mynediad at wasanaethau hanfodol yng nghanau cynnar y pandemig pan gaeodd gwasanaethau, gofal cymdeithasol, gofal iechyd, a'r trydydd sector a grwpiau cymunedol eraill ledled Cymru. .

### **Cynaliadwyedd cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth a lles y trydydd sector**

Dywedodd sawl arweinydd gofal cymdeithasol wrthym am y gwasanaethau a ddarperir gan bartneriaid lleol Age Cymru a grwpiau eraill yn y trydydd sector, a sut y gellid eu datblygu. Dywedodd sawl un wrthym ba mor bwysig yw hi y dylai cyllid ar gyfer y trydydd sector fod yn fwy cynaliadwy er mwyn caniatáu i brosiectau ddatblygu, ymsefydlu mewn cymunedau a thrwy gynaliadwyedd, yna bod ganddynt yr hyder i roi cynnig ar ddulliau newydd a datblygu ymhellach dros amser.

Dywedodd un awdurdod lleol wrthym sut y bydd angen mwy o gymorth gan y trydydd sector i weithio i gyflawni'r newidiadau y maent wedi'u gwneud i'w darpariaeth o wasanaethau. Cyn y pandemig roedd ganddynt dri thîm gofal cymdeithasol. Maent bellach wedi'u rhannu'n bum tîm ardal, ac o dan y rhain mae 'is-ardaloedd' pellach. Mae gan bob un o'r pum ardal swydd cysylltydd cymunedol a ddarparwyd yn wreiddiol drwy'r Cyllid Gofal Integredig. Dros y 12 mis nesaf byddant yn edrych mwy ar ganolfannau cymunedol. Bydd cymorth y trydydd sector yn hanfodol i'w llwyddiant. Fel rhan o'r sgwrs hon, dywedasant wrthym sut yr oedd eu partneriaeth â phartner lleol Age Cymru yn helpu gyda darpariaeth gymunedol. Cymerodd partner lleol Age Cymru wasanaeth dydd traddodiadol pan gaeodd yr adeilad a'i cynhaliodd a hefyd ddarparu gwasanaeth hanfodol 'pryd ar glud' yn yr ardal honno. Dywedasant wrthym y byddai gwella argaeledd canolfannau dydd yn helpu i adfer gofal cymdeithasol.

Mae un gweithiwr sydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Age Cymru leol yn edrych ar becynnau cymorth cymunedol i weld lle y gellir diwallu anghenion yn well drwy ffyrdd heblaw gofal traddodiadol, sydd â'r bwriad o ryddhau rhywfaint o amser mewn gwasanaethau gofal cartref.

### **Hyfforddiant ar gefnogi anghenion penodol pobl hŷn**

Dywedodd awdurdodau lleol sydd wedi colli staff profiadol drwy'r pandemig wrthym, er y gallant wneud pob ymdrech i recriwtio staff newydd, fod y broblem o golli profiad aelodau o staff sy'n deall anghenion pobl hŷn yn cymryd amser i'w ddatrys. Dywedodd un awdurdod lleol wrthym y byddai'n fuddiol pe gallai'r trydydd sector ddarparu hyfforddiant fel bod gan eu staff gwell dealltwriaeth o anghenion pobl hŷn. Byddai hyn yn helpu i roi'r offer sydd eu hangen ar staff newydd i ddarparu gofal o safon yn gynharach yn eu gyrfa newydd.

## Helpu i reoli disgwyliadau pobl o'r hyn y gall gofal cymdeithasol ei ddarparu'n realistig

Dywedodd un awdurdod lleol gwledig wrthym am y prif faterion sydd ganddynt o ran dod o hyd i ofal cartref i aelwydydd anghysbell a oedd yno cyn y pandemig. Pan fydd pobl yn byw mewn ardaloedd anghysbell mae'n anos cael cwmnïau gofal i ymgymryd â'r gwaith hwn. Dywedasant wrthym y byddai cymorth i reoli disgwyliadau o'r hyn y mae gofal cymdeithasol yn medru ei ddarparu'n rhesymol yn helpu yn y tymor hwy. Efallai na fydd pobl yn deall yr anawsterau ymarferol o ran darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pob person bob dydd o'r flwyddyn, a pham na all gofal cymdeithasol gael y cymorth hwnnw ar eu cyfer yn gyflym. Gallai hyn fod yn rhan o ystyriaethau cynllunio ar gyfer cyfnodau diweddarach mewn bywyd pobl ynghylch ymddeol, neu newid mewn amgylchiadau lle mae pobl yn meddwl am yr hyn y maent am ei gael yn ddiweddarach mewn bywyd ac a fyddai symud tŷ yn well dewis iddynt er mwyn caniatáu gwell mynediad at wasanaethau. O'r trafodaethau hyn, mae'n ymddangos yn glir bod llawer y gellid ei wneud i wella'r cymorth i bobl hŷn pe gellid dod o hyd i adnoddau i gefnogi hyn.

---

# Casgliadau

---

## 1) Gwneir ymdrech ledled Cymru i wella o'r pandemig a gwella gofal cymdeithasol

Mae'n amlwg o drafodaethau bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn datblygu ac yn newid gofal a chymorth i wella lles pobl hŷn, a gofaluwr di-dâl. Yn ôl ei natur, mae'n rhaid i ofal cymdeithasol ddarparu gwasanaethau yn gyntaf i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf dybryd ac sydd mewn perygl o niwed ar unwaith a gall hyn ddod ar draul eraill y bernir eu bod yn ymdopi yn y cyfamser. Er ei fod yn bwysig darparu ar gyfer y rhai sydd â'r angen mwyaf, mae mwy y gellid ei wneud ar gyfer y rhai sy'n gorfod aros ac mae gwell cyfathrebu ar bob lefel yn hanfodol i hyn. Mae awdurdodau lleol yn edrych ar yr hyn sydd wedi helpu yn ystod y pandemig a sut y gellir defnyddio'r pethau cadarnhaol hyn i wella'r modd y darperir gwasanaethau yn y dyfodol.

## 2) Angen gwella'r ffordd mae gwasanaethau yn cyfathrebu gyda phobl hŷn sydd yn aros am gymorth

Mae trafodaethau gydag awdurdodau lleol yn dangos bod rhai systemau wedi'u sefydlu ond mae adborth gan bobl hŷn yn dweud wrthym efallai na fydd y rhain yn cael eu dilyn bob amser. Er y dywedir wrthym fod y systemau cyfathrebu hyn yn bodoli, rydym wedi clywed gan bobl hŷn am gyfathrebu gwael neu ddim cyfathrebu o gwbl, a'r straen o beidio â gwybod a yw gofal yn cael ei drefnu a pha mor hir y maent yn debygol o aros. Dim ond ychydig o bobl hŷn y buom yn siarad â nhw oedd yn teimlo bod eu cyswllt cyntaf â gofal cymdeithasol yn rhoi'r offer angenrheidiol iddynt fedru cefnogi eu hunain wrth iddynt aros, neu eu bod wedi deall pa mor hir y gallai fod yn rhaid iddynt aros.

## 3) Nid yw systemau casglu data ledled llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn gallu monitro ac adrodd yn effeithiol ar gyfer y rhai sy'n aros i dderbyn asesiad gofal neu becyn gofal

Roedd yn syndod gweld bod y prosesau'n amrywio'n fawr rhwng awdurdodau lleol gydag o leiaf awdurdod lleol yn dweud wrthym nad ydynt yn casglu'r data hwn. Mae methu â monitro'r data hwn yn ei gwneud yn anodd deall sut y gall awdurdodau lleol neilltuo'r adnoddau cywir, a sicrhau bod pobl hŷn yn derbyn cymorth amserol ac effeithiol. Yn ogystal, mae'r diffyg unffurfiaeth hwn ledled Cymru yn ei gwneud yn anodd iawn gweld darlun cyffredinol clir i ddeall maint unrhyw broblemau posibl a pha gymorth y gallai fod ei angen.

## 4) Mae nifer y bobl sy'n aros am ofal a chymorth ar hyn o bryd a'r effeithiau andwyol a gaiff hyn arnynt, eu gofaluwr, eu teulu ehangach a'u cymuned yn golygu bod angen cymorth ar unwaith i'r unigolion hynny, yn ogystal â newid hirdymor yn y system ar frys

Mae ein dadansoddiad o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn caniatáu graddfa resymol o'r mater ledled Cymru er nad yw pob awdurdod lleol yn gallu ymateb. Rhwng y data a ddarparwyd, gwybodaeth gan bobl hŷn a thrafodaethau ag arweinwyr gofal cymdeithasol, mae'n amlwg bod yr angen am ofal i bobl hŷn yn uwch na chyn y pandemig.

## **5) Mae angen canolbwyntio mwy o adnoddau ar gefnogi pobl i aros yn gyffyrddus o fewn gofal cymdeithasol**

Er y gellir rhagweld y bydd yr oedi mewn gofal yn diflannu dros amser, roedd problemau gydag oedi yn bodoli cyn y pandemig. Bydd adferiad yn cymryd amser i'w gyflawni, felly mae angen gwell cyfathrebu a chymorth tra bydd pobl yn aros. Mae angen gwell dealltwriaeth o ba gymorth byddai o fudd i bobl sy'n aros am ofal, a sut y gallai hyn helpu i leihau'r galw am wasanaethau gofal yn y tymor hwy. Rydym yn rhagweld y bydd y mathau o gymorth sydd ar gael drwy dimau 'ar ymyl gofal' yn debyg o ran natur i'r rhai sydd eu hangen ar gyfer pobl sy'n aros am ofal. Dylai pobl hŷn gael eu cynnwys ar bob lefel o drafodaeth yn y datblygiadau hyn.

---

# Argymhellion

---

Dylid darllen yr argymhellion isod ochr yn ochr â chamau gweithredu Llywodraeth Cymru, y bwrdd rhaglenni rhanbarthol ac awdurdodau lleol sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd i hyrwyddo adferiad gofal cymdeithasol wedi'r pandemig.

## Argymhelliad 1

**Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r un system rheoli achosion a sicrhau bod y data a gesglir yn gyson ledled Cymru. Bydd hyn hefyd yn helpu'r rhai sy'n symud siroedd i gael gwasanaeth mewn modd amserol. Efallai y bydd Data Cymru yn gallu cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu eglurder a chysondeb o ran cofnodi ar wahanol gamau o'r broses asesu gofal.**

Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod systemau rheoli achosion yn ddigon datblygedig a chadarn i gynhyrchu gwybodaeth gywir a chyfredol yn hawdd am ba mor hir y mae pobl yn aros i'w hanghenion gael eu diwallu o'r pwynt cyswllt cyntaf. Oni bai bod cydraddoldeb o ran casglu data ledled Cymru, mae maint y materion sydd yn parhau'n aneglur.

## Argymhelliad 2

**Dylai awdurdodau lleol asesu eu gweithdrefnau presennol ar gyfer cyswllt cyntaf a chyfathrebu parhaus ar gyfer pobl sydd angen gofal a gwneud gwelliannau lle y nodir hynny. Dylai hyn gynnwys:**

- A yw'r wybodaeth a ddarperir drwy eu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor yn cwmpasu'r ystod o anghenion a'r hyn y bydd ei angen ymhellach fel rhan o ddatblygiadau'r fframwaith rhagnodi cymdeithasol
- A roddir digon o ystyriaeth i wneud gwaith dilynol ar gyfer pobl sy'n agored i niwed a allai ei chael hi'n anodd gofyn am gymorth yr eildro, fel ffordd o gefnogi ymyrraeth gynharach
- A yw'r wybodaeth a ddarperir yn hygyrch i bawb, a sut y gall pobl nad ydynt yn gallu defnyddio (neu nad oes ganddynt fynediad at dechnoleg ddigidol) gael mynediad cyfartal â'r rhai ar-lein?
- Pa mor aml y cysylltir â phobl wrth iddynt aros ac os yw hyn yn ddigonol ar gyfer anghenion unigol?
- Sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyfleu (galwadau ffôn rheolaidd, llythyrau ac yn y blaen) ac a yw'n hygyrch i bawb, gan gynnwys anwyliad ac eraill sy'n ymwneud â'u gofal?

Awgrymw'n y dylai cyswllt parhaus fod yn fisol, oni bai bod amgylchiadau'n newid a fyddai'n gofyn am gyswllt amlach.

Mae angen darparu amserlenni realistig i bobl ar ddechrau eu taith ar gyfer derbyn asesiad o anghenion gofal. Bydd y wybodaeth bod amserlen yn helpu i dawelu meddyliau pobl ac yn rhoi terfyn penodol iddynt, hyd yn oed os yw'r amserlen honno'n hir. Dylai'r amserlenni hyn, a

chadarnhad eu bod ar y rhestr aros am asesiad, gael eu darparu'n ysgrifenedig mewn fformat hygyrch.

Gwyddom o'n gwasanaethau eiriolaeth fod pobl yn ymateb yn dda pan gânt amserlenni realistig ar gyfer asesiadau o anghenion gofal; mae'n rhoi mwy o sicrwydd i bobl bod cynnydd yn cael ei wneud. Mae galw mawr am ein gwasanaethau yn golygu bod yn rhaid i bobl aros, ond yr ydym yn glir ynglŷn â hyn yn ein cyfathrebu â phobl sy'n cysylltu â ni. Yn anecdotaid, mae ein cleientiaid wedi dweud eu bod yn fwy cyfforddus yn gwybod bod cyfnod aros, yn hytrach na bod amserlen bendant i gynllunio gyda hi.

## Argymhelliad 3

**Dylai awdurdodau lleol ddarparu adnoddau penodol ar gyfer mynd i'r afael â'r unigolion hynny sy'n gorfod aros mwy na 30 diwrnod ar hyn o bryd am asesu anghenion gofal neu weithredu pecyn gofal.**

Er bod nifer y bobl a nodwyd sy'n aros mwy na 30 diwrnod yn gymharol fach o ran nifer, mae'r effaith ar yr unigolion hynny'n aruthrol: gall aros gael effaith negyddol enfawr ar iechyd meddwl a chorfforol yr unigolyn sy'n aros yn ogystal ag ar ofalwyr, y teulu a'r rhwydwaith cymorth ehangach.

## Argymhelliad 4

**Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ffocws cenedlaethol, gan archwilio pa gymorth sydd ei angen wrth i bobl aros a sut y darperir hyn, yn gyfartal â'r gwaith ar aros yn dda yn y sector gofal iechyd.**

Dylai hyn gynnwys cynnydd mewn atgyfeiriadau ymlaen i ddarparwyr cymorth priodol eraill gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth a chymorth. Mae mapiau ffyrdd cymorth a chymunedau ymarfer ar gael ledled Cymru, yn ogystal ag adnodd chwilio gwybodaeth ar-lein DEWIS, a all gyfeirio pobl at rwydweithiau cymorth lleol a chymorth mwy arbenigol.

Mae prosiectau eiriolaeth Age Cymru yn cefnogi pobl y cyfeiriwyd atynt i gael mynediad at ystod o ymyriadau tra byddant yn aros am eiriolwr cyflogedig neu wirfoddol, ac mewn achosion lle nad oedd atgyfeiriad eiriolaeth yn briodol i'w gwasanaethau. Mae hyn yn cefnogi pobl i deimlo eu bod wedi'u grymuso a bod ganddynt ymdeimlad cyfannol o'r gymuned o gymorth sydd o'u cwmpas ac sy'n lleihau lefelau straen i bobl naill ai wrth aros am ymyriad lefel uwch neu drosglwyddo i wasanaeth mwy priodol.

## Argymhelliad 5

**Dylai Llywodraeth Cymru, byrddau partneriaeth ranbarthol, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod cyllid y trydydd sector yn cael ei ddarparu ar sail gynaliadwy. Darperir cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth y trydydd sector yn aml ar sail tymor byr, sy'n ei gwneud yn anodd datblygu gwasanaethau o ansawdd da yn gyflym, a chael y gwydnwch i allu addasu'n gyflym mewn cyfnod o argyfwng. Mae cyllid tymor byr yn aml yn golygu bod recriwtio'n parhau, gan fod staff yn gadael am well sicrwydd cyflogaeth.**

Mae angen sicrhau bod trefniadau ariannu tymor hwy ar gael i'r trydydd sector. Dylid rhoi grantiau a phecynnau ariannu o 3-5 mlynedd i wasanaethau sy'n diwallu anghenion y boblogaeth ac yn lleddfu'r pwysau ar bobl sy'n aros am asesiadau o anghenion gofal a phecynnau gofal. Bydd hyn yn caniatáu darparu cymorth ychwanegol cyfannol a pharhaol. Bydd y model ariannu pum mlynedd a gyhoeddwyd yn 2022 ar gyfer y Gronfa Integreiddio Ranbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnig cyfleoedd ariannu tymor hwy tra hefyd yn alinio adnoddau ar gyfer y bobl y bydd yn eu cefnogi.

## Argymhelliad 6

**Mae angen rhoi pwyslais ar ddysgu rhwng awdurdodau lleol a rhannu arferion da. Bydd hyn yn lleihau maint y gwaith y mae angen i awdurdodau lleol ei wneud ac yn eu helpu i osgoi peryglon y mae awdurdodau lleol eraill wedi mynd i'r afael â hwy.**

Gellir defnyddio rhwydweithiau ar lefel genedlaethol sy'n ymgysylltu â staff rheng flaen i rannu gwybodaeth ac i ategu rhwydweithiau strategol a rheoli yn effeithiol. Yn aml, nid yw gwybodaeth ac enghreifftiau o gyfleoedd, cryfderau ac arfer da yn teithio o'r rheng flaen i lefel rheoli. Byddai fframwaith neu rwydwaith traws-ranbarthol sy'n annog hyn yn rhoi cyfle i weithwyr llinell flaen hyrwyddo a rhannu arloesedd ac ymwybyddiaeth o wasanaethau.

Mae Age Cymru yn cefnogi ac yn cadeirio'r Rhwydwaith Eiriolaeth Cenedlaethol ar hyn o bryd. Mae'r rhwydwaith hwn yn dwyn ynghyd eiriolwyr o bob rhan o Gymru i drafod materion sy'n dod i'r amlwg, rhannu llwyddiannau ac arfer da a hyrwyddo gwasanaethau a chyfleoedd datblygu eraill drwy amrywiaeth o gyflwyniadau a siaradwyr.

## Argymhelliad 7

**Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod asesiadau o anghenion y boblogaeth yn cynnwys ffocws ychwanegol ar ragnodi cymdeithasol a'r hyn sydd ei angen i helpu pobl i gynnal eu lles. Dylai'r gwaith o gynllunio gwasanaethau o'r fath gynnwys ymgysylltu â phobl hŷn ar bob lefel. Dylid comisiynu gwasanaethau o'r fath ar sail gynaliadwy.**

Gellid cyflawni hyn drwy gynyddu'r broses o gasglu data i adlewyrchu anghenion canfyddedig y boblogaeth mewn perthynas â'u hiechyd a'u lles. Er enghraifft, nodi'r angen am weithgareddau corfforol neu gyfleoedd cymdeithasol a fyddai o fudd i'w hymdeimlad cyffredinol o les. Yna gellid mapio hyn yn erbyn y ddarpariaeth bresennol ar draws rhanbarthau a'i ddefnyddio i nodi bylchau yn y gwasanaeth y gallai ymatebwyr i Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth elwa arnynt.

Mae rhagnodi cymdeithasol wedi chwarae rhan ers amser maith mewn gwasanaethau cymorth ac eiriolaeth. Pan fydd gwasanaethau eiriolaeth a llinell wybodaeth a chyngor Age Cymru yn ymgysylltu â phobl hŷn, rydym yn eu trin yn gyfannol ac yn dysgu mwy amdanynt na dim ond yr angen neu'r mater sy'n codi. Mae hyn yn golygu y gallwn fabwysiadu ymagwedd 'Dim Drws Anghywir' at anghenion ein cwsmeriaid a'n buddiolwyr. Drwy'r dull hwn rydym wedi cefnogi pobl hŷn i fanteisio ar gyfleoedd Cerddeg Nordig, gwasanaethau torri ewinedd, prosiectau celfyddydol ac ymgynghoriadau, yn ogystal â'r gwasanaeth cychwynnol a gyflwynwyd ganddynt. Mae hyn wedi ein helpu i drin pobl yn gyfannol a sicrhau ein bod yn mabwysiadu ymagwedd anghenion cyfan.

---

# Cyfeirnodau

---

- i) Assessments and social services for adults in Wales, 2015-16, available at <http://gov.wales/statistics-andresearch/assessments-social-services-adults/?lang=en>
- ii) ADSSS 2019 Innovative funding models to meet social care needs report <https://www.adss.cymru/en/blog/post/innovative-funding-models-to-meet-social-care-needs>
- iii) Milsom S & Breeze C, August 2020 Rebalancing Social Care: A report on Adult Services <https://www.adss.cymru/en/blog/post/delivering-transformation-grant-programme-2019-20-rebalancing-social-care-a-report-on-adult-services>
- iv) <https://www.ageuk.org.uk/globalassets/age-cymru/documents/covid-19-survey/agecymru--report-on-the-current-experiences-of-people-aged-50-or-over-across-wales-ofthe-covid-19-pandemic-and-views-on-the-year-ahead---june-2022.p>



Mae Age Cymru yn elusen gofrestrdig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant a'i cofrestrir yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad swyddfa gofrestrdig Llawr Gwaelod, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd CF24 5TD. ©Age Cymru 2022